



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

CYNLLUN DATBLYGU'R GYMRAEG Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru

Wedi ei baratoi gyda chymorth
Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg
Derbyniwyd gydnabyddiaeth y Comisiynydd ar 26/5/22



Ein sefydliad

Mudiad ieuenctid gwirfoddol yw CFFl Cymru, yn gweithredu yn ddwyieithog ar draws cymunedau gwledig Cymru, gydag aelodau rhwng 10 a 28 mlwydd oed. Mae 12 ffederasiwn sirol yn rhan o ffederasiwn Cymru, gyda phob sir yn rheoli eu hunain yn weinyddol o fewn y strwythur cenedlaethol. Mae'n Fudiad democrataidd, a'r broses ddemocrataidd yma sy'n sail i weinyddiad a gweithgareddau'r Mudiad.

Mae Cyngor CFFl Cymru yn gyfrifol am ddarparu gweithgareddau; datblygu a gweithredu polisiau; cynghori clybiau a siroedd yng Nghymru yn ogystal â gweithredu fel un o'r pwyntiau cyswllt rhwng Cyngor Cymru a Lloegr, a'r clybiau a Siroedd yng Nghymru.

Rydym yn awyddus i gynorthwyo pobl ifanc i fod yn ffermwyr llwyddiannus, unigolion hyderus, cyfranwyr effeithiol a dinasyddion cyfrifol, a chynnig gweithgareddau, cystadlaethau a chyfleoedd gwerthfawr iddynt.

Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a'n cwsmeriaid

Gyda 62% o'n haelodau yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, mae'n atgyfnerthu'r galw i'r mudiad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, ac i roi sylw cyfartal i'r ddwy iaith.

Mae Cyngor CFFl Cymru yn ymrwmo i sicrhau y caiff aelodau, gwirfoddolwyr a staff yr un hawl i dderbyn eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ag yn y Saesneg. Mae CFFl Cymru wedi ymrwmo i hyn oherwydd eu bod yn darparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg, a'i fod yn cydnabod fod iaith gyntaf yn bwysig i bawb, boed yr iaith gyntaf hwnnw yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Rydym eisoes yn derbyn Grant Hybu a Hyrwyddo Defnydd y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, wrth gynnig rhaglen o weithgareddau sy'n cynorthwyo i ddatblygu sgiliau ieithyddol, cyfrannu at ddemocratiaeth leol a gwirfoddoli mewn cymunedau. Mae CFFl Cymru yn croesawu'r cyfle i gydweithio â Llywodraeth Cymru drwy greu prosiectau sydd yn cyfrannu at gyflawni her Cymraeg 2050, ac mae'r sefydliad yn credu y gall y CFFl wneud cyfraniad allweddol at helpu i gynnal a datblygu'r iaith yn ardaloedd gwledig y Wlad.

Mae'r cynllun hwn yn gam pellach ymlaen i nodi, yn ysgrifenedig, bod bwriad gennym i sicrhau gwasanaeth yn y ddwy iaith i'n haelodau a bod y bwriad hwnnw yn eglur i'r cyhoedd,

Yng nghyfansoddiad CFFl Cymru, fe nodir fel un o'r amcanion:-

‘I hybu ei weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg
a'r Saesneg ac i sicrhau fod y gweithgareddau hynny yn
gwella dealltwriaeth a gwybodaeth yr aelodau o fywyd
Cefn Gwlad Cymru, diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg’

Ein Cynnig Cymraeg


Bydd CFFl Cymru yn sicrhau fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn yr un modd, gyda'r un parch ac ar sail cyfartaledd. Rydym yn ymfalchio ein bod yn cynnig y canlynol:

- Bydd holl wasanaethau'r mudiad yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog, boed ar ffurf ddigidol ar y wefan a chyfryngau cymdeithasol neu ar ddeunydd hyrwyddo megis posteri neu sticeri.
- Mae cyfle i'n haelodau i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd yn eu hiaith ddewisol. Mae cystadlaethau megis adloniant a siarad cyhoeddus yn cael eu cynnal yn benodol drwy gyfrwng y Gymraeg, ym mhob cystadleuaeth arall, nad sy'n fwriadol Saesneg na Chymraeg, bydd cyfle i gyfranogwyr gystadlu yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- Mae CFFl Cymru yn gweithio mewn cydweithrediad gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i gynyddu'r nifer o aelodau a staff sydd yn dysgu Cymraeg. Rydym yn creu cyfleoedd cystadlu i ddysgwyr Cymraeg, ee, llefaru i ddysgwyr.
- Gall staff, aelodau, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaethau Cymraeg, boed wyneb yn wyneb neu ar ffurf gohebiaeth, gyda holl ddeunydd yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.
- Bydd offer cyfieithu ar y pryd ar gael i'w ddefnyddio yng Nghyfarfodydd pwyllgor Cyngor Cymru. Mewn cyfarfodydd is-bwyllgor, croesawir aelodau hefyd i gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, fel y dymunir.

Y swyddog cydlynu

Mi fydd Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn gyfrifol am gydlynu bod staff CFfl Cymru yn gweithredu ar y camau o fewn y cynllun hwn a bod gwasanaeth dwyieithog yn cael eu cynnig bob amser, yn ogystal a bod yn bwynt cyswllt i ddelio ag unrhyw gwynion os na fydd gofynion y cynllun yn cael eu cyrraedd.

Nia Haf Lewis, Swyddog Datblygu'r Gymraeg,
CFfl Cymru,
Llanelwedd,
Llanfair-ym-Muallt,
Powys
LD2 3NJ

 07384 340630

 SwyddogCymaeg@yfc-wales.org.uk

Cyfnod adolygu

Bydd Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn asesu'r targedau drwy gydol y flwyddyn, gan weithio gyda'r swyddogion priodol er mwyn sicrhau bod y targedau yn cael eu cyrraedd. Byddwn yn adolygu'r cynllun yn flynyddol gan weithredu ar unrhyw welliannau sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ac amrywio'r targedau.

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Delio â phobl				
Wyneb i wyneb Mae aelod(au) o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfarch cwsmeriaid yn y Gymraeg pob amser	③	Mae aelodau o staff a gwirfoddolwyr wastad ar gael, mewn digwyddiadau a chyfarfodydd, i gyfarch yn Gymraeg ac mi fyddwn yn parhau i gynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus
Dros y ffôn Mae pob swyddog yn cynnig cyfarchiad dwyieithog. Os nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg byddant yn cynnig trosglwyddo galwadau at swyddog sy'n gallu siarad Cymraeg	②	Byddwn yn gweithio gyda'r staff er mwyn sicrhau bod y ffôn yn cael ei ateb gan bawb yn ddwyieithog e.e. 'CFfl Cymru - Wales YFC'. Os fydd rhywun yn dymuno siarad gydag aelod o staff sydd yn siarad Cymraeg, mi fydd y galwad yn cael eu trosglwyddo i unigolyn sydd yn medru'r Gymraeg, pan yn bosib.	Holl Staff	Hydref 2022
Ymateb i lythyrau ac e-byst Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg	③	Rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg a byddwn yn ceisio bod yr ateb yn yr un iaith a'i derbynir. Os bydd yr eitem o ohebiaeth Gymraeg wedi ei gyfeirio at aelod di-Gymraeg o'r staff, yna fe anogir i gael ei gyfieithu gan aelod o staff a danfon cyfieithiad Cymraeg o'r ateb yn ôl. Byddwn yn mynd ati i gefnogi'r staff di-Gymraeg i gyfeirio'r gohebiaeth ymlaen neu ateb yn briodol.	Holl Staff	Parhaus
Danfon llythyrau ac e-byst Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig bob tro	③	Mae gohebiaeth yn cael eu anfon allan yn ddwyieithog a fyddwn yn cynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Gwasanaethau Cymraeg eraill		Mae holl weithgarwch Cffl Cymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Mae cyfleoedd i'n haelodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu hiaith gyntaf, y Gymraeg neu'n Saesneg.	Holl Staff a'r Cyngor	
Ydych chi'n cadw cofnod o ddewis iaith eich cwsmeriaid neu ddefnyddwyr? E.e. ar excel neu CRM Rydym yn gwybod yn anffurfiol beth yw dewis iaith ein cwsmeriaid	②	Mae gennyn ni fasdata o'n aelodau, ond nid yw eu 'dewis iaith' wedi ei ddiweddarau. Mi fyddwn yn ymchwilio ymhellach i gasglu dewis iaith ein aelodau yn ffurfiol, a bydd system mewn lle erbyn mis Hydref. Rydym yn gwybod yn anffurfiol beth yw eu dewis iaith ar hyn o bryd.	Holl Staff	Hydref 2022
Iaith Gwaith Mae gan swyddogion sy'n siarad Cymraeg droednodyn e-bost sy'n nodi eu bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg	③	Mae posteri Iaith Gwaith o amgylch adeilad y mudiad yn Llanelwedd i ddangos bod staff yn hapus i siarad Cymraeg. Erbyn hyn, rydym wedi derbyn bathodynau Cymraeg Gwaith a dysgwyr Cymraeg, fydd yn cael eu dosbarthu mewn digwyddiadau i wirfoddolwyr nodi eu sgiliau Cymraeg. Mi fyddwn yn sicrhau fod staff sydd yn medru'r Gymraeg yn nodi hynny ar waelod eu llofnod e-bost gan ddefnyddio adnoddau digidol iaith Gwaith.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg	Mai 2023
Delwedd				
Enw eich cwmni neu sefydliad Mae ein henw yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig	③	Mae delwedd ein sefydliad yn gwblw ddwyieithog, a rydym am barhau i gynnal y safon yma.	Cyngor	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Nodwch os yw'r pethau isod ar gael yn:				
Cardiau busnes Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Rydym am gynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus
Papur pennawd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Rydym am gynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus
Adnoddau marchnata– ee Pops / Baneri / Posteri (digidol a statig) Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mae'r holl waith marchnata yn digwydd yn ddwyieithog heb rhoi llai o sylw i'r Gymraeg ac rydym am gynnal y safon yma.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Swyddog Marchnata	Parhaus
Llofnod e-bost Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mi fyddwn yn gwirio bod pob llofnod e-bost staff yn ddwyieithog. Rydym am gynnal y safon yma, yn ogystal a nodi eu bod yn hapus i dderbyn ac ateb e-byst Cymraeg.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg	Medi 2022
Pecynnu Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Rydym am gynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Gwisgoedd staff Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Rydym am gynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus
Cyhoeddiadau e.e. taflenni gwybodaeth Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mi fyddwn yn parhau i gyhoeddi pob gohebiaeth sydd yn mynd i'n cwsmeriaid a'r cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys papurau pwyllgorau a gwybodaeth wythnosol.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r holl staff	Parhaus
Arwyddion Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mi fyddwn yn parhau i gynnal y safon o gael holl arwyddion parhaol yn adeilad y mudiad ac mewn digwyddiadau yn ddwyieithog, yn ogystal a sicrhau fod unrhyw arwyddion newydd yn ddwyieithog.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r holl staff	Parhaus
Digidol				
Gwefan Mae ein gwefan yn ddwyieithog gyda'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu diweddarau'n gyson. Mae modd newid o'r Gymraeg i'r Saesneg wrth ddefnyddio'r botwm dewis iaith	③	Rydym am gynnal y safon yma, a sicrhau bod yr ochr Gymraeg a Saesneg yn cael ei diweddarau'n gyson.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Swyddog Marchnata	Parhaus
Cyfyngau Cymdeithasol Mae pob neges yn cael ei roi'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig	③	Mae pob neges yn cael eu rhannu yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf ar ein tudalennau Facebook a Instagram @fficymrwalesyfc Mae dau gyfrif ar Twitter @fficymru @walesyfc gyda'r ddau yn cael eu defnyddio yr un mor aml,	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Swyddog Marchnata	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		gyda'r un safon i'r ddwy iaith, a byddwn yn parhau gyda hyn.		
Digwyddiadau				
Dewis iaith mynychwyr Ydyn, ac yn nodi bod croeso iddynt gyfrannu i drafodaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg	③	Nid ydym yn holi beth yw dewis iaith mynychwyr cyn digwyddiadau, ond mi rydyn ni yn awyddus i bawb ddefnyddio eu hiaith dewisol bob amser. Mae ein digwyddiadau yn ddwyieithog. Mi fyddwn yn hyrwyddo'r ffaith bod croeso i'n aelodau a'r cyhoedd i gyfrannu at drafodaethau neu i gystadlu mewn cystadleuaeth yn eu iaith dewisol. Mi fydd yn cael eu nodi gan swyddogion cyfarfodydd neu ddigwyddiad ac yn y rheolau.	Holl Staff a Swyddogion	Hydref 2022
Gwahoddiadau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Parhau i gynnal y safon yma.	Holl Staff	Parhaus
Siaradwyr / Cyhoeddiadau sain Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mi fydd cyhoeddiadau yn ddwyieithog mewn digwyddiadau. Byddwn yn parhau i gefnogi swyddogion sydd yn dysgu Cymraeg i gyfrannu rhywfaint yn Gymraeg. Yn ystod cyfarfodydd CCB byddwn yn parhau i gynnig offer cyfieithu a chyfieithydd i bawb sy'n bresennol.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Cyngor	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Arwyddion Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Rydym am gynnal y safon yma, a sicrhau bod unrhyw arwyddion newydd yn ddwyieithog.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Holl Staff	Parhaus
Baneri / Pop-ups / Arddangosfeydd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Rydym am gynnal y safon yma, a sicrhau bod unrhyw adnoddau newydd yn ddwyieithog.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Holl Staff	Parhaus
Staff neu wirfoddolwyr i gyfarch ymwelwyr / cystadleuwyr Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mi fyddwn yn annog unrhyw staff neu wirfoddolwyr i arddangos eu bod yn medru'r Gymraeg trwy wisgo bathodyn iaith gwaith. Mi fyddwn yn gwirio bod siaradwr Cymraeg ar gael i gyfarch ym mhob digwyddiad.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg	Hydref 2022
Tocynnau (system gofrestru ee tocyn.cymru / eventbrite?) Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mi fydd ein systemau archebu ar lein yn parhau i fod yn ddwyieithog, gyda'r ochr Gymraeg o'r wefan o'r un safon a'r Saesneg.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg a'r Holl Staff	Parhaus
Hyfforddiant Mae rhai cyrsiau ar gael yn Gymraeg ond yn bennaf byddant yn Saesneg. Byddwn yn marchnata cyrsiau yn ddwyieithog gan ddynodi'r cyrsiau Cymraeg yn glir.	②	Byddwn yn parhau i asesu cynnal sesiynau hyfforddi Cymraeg neu ddwyieithog i'n aelodau, fel hyfforddiant swyddogion, ond yn eu hysbysebu yn ddwyieithog gyda chyfraniadau Cymraeg i'w croesawu. Byddwn yn edrych i weld os oes modd cynnig mwy o gyrsiau hyfforddiant Cymraeg neu dwyieithog.	Swyddog Datblygu'r Gymraeg	Hydref 2022
Datblygu Gweithlu				

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<p>Recriwtio staff a gwirfoddolwyr</p> <p>Rydym yn nodi bod y Gymraeg yn sgil dymunol ar gyfer bob swydd newydd</p>	<p>②</p>	<p>Byddwn yn parhau i asesu pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd newydd, ac os yw'r gallu i siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol. Mae'r swyddi yn cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg yn ddymunol.</p>	<p>Prif Weithredwr</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Hysbysebu swyddi gwag</p> <p>Rydym yn hysbysebu pob swydd newydd yn ddwyieithog</p>	<p>③</p>	<p>Mae'r holl hysbysebion swydd yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog. Mi fyddwn yn parhau i wneud hynny ac yn ystyried hyrwyddo drwy'r sianeli swyddi Cymraeg.</p>	<p>Swyddog Marchnata a'r Holl Staff</p>	<p>Hydref 2022</p>
<p>Cofnodi sgiliau Cymraeg eich gweithlu</p> <p>Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n swyddogion yn gallu siarad Cymraeg</p>	<p>①</p>	<p>Rydym yn ymwybodol o'r swyddogion sydd yn siarad Cymraeg, ond nid ydym wedi bod yn cadw cofnod o hyn.</p> <p>Rydym yn anelu i gadw cofnod o iaith staff yn ysgrifenedig, yna sicrhau bod o leiaf un aelod staff neu swyddog sy'n medru'r Gymraeg yn bresennol mewn digwyddiadau.</p>	<p>Swyddog Datblygu'r Gymraeg</p>	<p>Hydref 2022</p>
<p>Rhoi gwybod i'ch gweithlu am eich gwasanaethau Cymraeg</p> <p>Mae pob swyddog yn cael gwybod sut i ddarparu gwasanaethau Cymraeg fel rhan o'r broses anwytho</p>	<p>③</p>	<p>Mae'r holl staff wedi derbyn copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn ymwybodol o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig. Mi fyddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd yn cael eu cynnig yn Gymraeg i'n aelodau a'r cyhoedd, gan rannu'r Cynnig Cymraeg, yn fewnol ac yn allanol.</p>	<p>Swyddog Datblygu'r Gymraeg</p>	<p>Hydref 2022</p>

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<p>Dylanwadu ar bartneriaid ac aelodau i gynnig gwasanaethau Cymraeg</p> <p>Wrth gwrdd â darparwyr byddwn yn nodi ein hymrwymiad at y Gymraeg a thrafod unrhyw oblygiadau iddyn nhw. Bydd unrhyw oblygiadau a gytunwyd yn cael eu gwerthuso.</p>	<p>③</p>	<p>Mae'r ffedarysiynau sirol wedi derbyn copi o Gynllun Iaith Gymraeg Cffl Cymru ac yn gweithio gyda'r Swyddog Datblygu Dwyieithrwydd i greu cynllun ei hunain. Mi fyddwn yn parhau i ddatblygu'r Gymraeg mewn siroedd unigol a chyd-weithio gyda'r trefnyddion sir er mwyn darparu gweithgareddau Cymraeg i'r aelodau.</p>	<p>Swyddog Datblygu'r Gymraeg</p>	<p>Hydref 2022</p>
<p>Dysgu a defnyddio'r Gymraeg</p> <p>Rydym yn hapus i ryddhau staff i gael gwersi Cymraeg yn ystod oriau gwaith ond nid oes gennym yr adnoddau i dalu amdanynt</p>	<p>②</p>	<p>Byddwn yn annog staff Cffl Cymru i ddysgu Cymaeg, gan galluogi bod yr amser yn cael eu rhoi o'r gwaith i wneud hynny. Byddwn yn edrych ar yr opsiwn i gyfrannu at wersi gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ac yn cefnogi'r staff yn bellach wrth ddysgu.</p>	<p>Swyddog Datblygu'r Gymraeg</p>	<p>Hydref 2022</p>